Uned 5A: Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol

TGCh Blwyddyn 5

Ynglyn â'r Uned:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu y gellir defnyddio TGCh i greu cynlluniau gwahanol i drefnu eu syniadau a'u meddyliau'n effeithiol, a bod arddangos gwybodaeth mewn ffyrdd amrywiol yn gallu helpu dealltwriaeth. Dylent gadw eu gwaith yn rheolaidd. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant drafod eu profiadau o ddefnyddio TGCh a sut mae'n cael ei defnyddio yn y byd eangach.
Bydd y plant yn gallu cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth: drefnu a chreu adroddiadau papur newydd; posteri hysbysebu; creu arddangosfeydd; anodi diagramau ac arddangos casgliadau gwyddonol mewn fformat tabl i greu adroddiad. Disgwylir iddynt lunio gwaith sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa darged, gan ddefnyddio arddulliau a thechnegau priodol sydd o ddiddordeb i'r darllenwr.
Hefyd, byddant yn gallu defnyddio eu sgiliau wrth: ysgrifennu adroddiadau yn Gymraeg; arddangos gwybodaeth sy'n tynnu ar ffynonellau daearyddiaeth, hanes, gwyddoniaeth a'r Gymraeg; egluro syniadau, a chreu posteri gwybodaeth i gefnogi amrywiaeth o bynciau.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar uned 4A - Defnyddio Prosesydd Geiriau i drefnu, ad-drefnu a datblygu syniadau, ac mae'n cymryd yn ganiataol bod plant yn:

- gyfarwydd â thestunau papur newydd
- gallu nodi pwyntiau allweddol i fwydo i mewn i dabl
- gallu darllen drwy sgimio a sganio yn ogystal â darllen yn fanwl
- gallu cadw eu waith yn rheolaidd

Geirfa:

Fframiau testun| Llifoedd testun| tabl | colofnau | rhesi | tirlun | portread | Uwch/Is | Cloi i dudalen |

Adnoddau:

Prosesydd geiriau | erthyglau papur newydd | erthyglau cylchgronau | taflenni gwybodaeth i dwristiaid | adroddiadau gwyddonol |gwybodaeth ar leoliadau | ffeiliau testun | posteri |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon:

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: defnyddo nodweddion gosod uwch prosesydd geiriau i'w helpu i drefnu ac arddangos eu meddyliau i'w cynulleidfa darged

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio nodweddion gosod prosesydd geiriau cyfyngedig i gyflwyno eu gwaith

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: dewis amrywiaeth o nodweddion gosod uwch prosesydd geiriau yn briodol i wella eu heffeithlonrwydd wrth gyd-weddu eu gwaith â'u cynulleidfa, gan roi rhesymau dros yr arddull gyflwyno y maen nhw wedi'i dewis.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr Olygfa			
• **syniad allweddol** bod papurau newydd a chylchgronau'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyflwyno ac effeithiau ysgrifenedig i gyfathrebu negeseuon. Maen nhw'n cynnwys defnyddio penawdau, colofnau, ffotograffau a hysbysebion.	• Dangoswch enghreifftiau o erthyglau papurau newydd a chylchgronau i'r dosbarth. Gofynnwch iddynt eu darllen mewn grwpiau bach gan nodi nodweddion cynllunio arnynt fel: *penawdau mewn arddulliau gwahanol*, colofnau, hysbysebion, darluniau; ffotograffau. Esboniwch eu bod yn mynd i gynhyrchu erthyglau papur newyddion sy'n rhannu'r nodweddion hyn, gan ddefnyddio prosesydd geiriau.	• Sylweddoli bod papurau newyddion yn defnyddio amrywiaeth o effeithiau ysgrifenedig a gweledol	• Mae 'Telesgopio' neu 'chwyddo mewn', lle mae'r darllenydd yn cael ei dynnu i mewn i'r erthygl drwy leihau maint y ffont, yn modd defnyddiol o feddwl am benawdau.
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu			
• **syniad allweddol:** bod fframiau testun yn gallu cael eu defnyddio i osod testun mewn safleoedd priodol ar dudalen a'u defnyddio i anodi darluniau neu ddiagramau • **techneg:** mewnosod fframiau testun a defnyddio arddull ffont, maint, lliw a lliw cefndir i greu effeithiau. • Newid cynllun y dudalen i dirlun neu bortread i'w defnyddio orau.	• Crëuwch fanc o ddelweddau ar destunau y mae'r plant wedi bod yn eu hastudio *e.e. nodweddion daearyddol y dirwedd, fel afonydd, mynyddoedd, llosgfynyddoedd, darluniau hanesyddol o bobl, gwisgoedd, artiffactau a llefydd ac ati.* Gofynnwch i'r plant fewnosod y darluniau y maen nhw wedi'u dewis mewn prosesydd geiriau. Dywedwch wrthynt eu bod yn mynd i greu poster gwybodaeth lle bydd angen penawd, lliw cefndir tudalen, a dewis fformat tirlun neu bortread. Bydd angen iddynt greu fframiau testun i fwydo gwybodaeth briodol er mwyn labelu a disgrifio nodweddion y ddelwedd. Dylent ystyried lliw cefndir y fframiau testun a dewis arddulliau ffont priodol i greu effaith.	• Mewnosod darlun i brosesydd geiriau • Newid lliw cefndir tudalen • Dewis cynllun priodol ar gyfer tudalen – tirlun neu bortread • Creu fframiau testun, newid lliw cefndir, dewis arddull, maint a lliw priodol y ffont	• Gellir defnyddio'r rhyngrwyd neu gyfeirlyfrau i ddod o hyd i wybodaeth ar y pynciau. *Neu*, gellir defnyddio'r posteri fel rhan o asesiad ar wybodaeth y plant o'r pwnc a ddewiswyd. • Gallai disgyblion mwy galluog ddefnyddio effeithiau ar y darluniau fel fframiau neu gysgodion. • Dylid trafod y posteri a'u harddangos.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u Ffocysu (Parhad.)			
• **syniadau allweddol:** bod testun a maint ac arddull y ffont yn gallu cael eu defnyddio am effaith i ddenu sylw'r darllenwyr ac maen nhw'n gallu dangos y pwysigrwydd perthnasol wrth roi gwybodaeth. • **techneg:** defnyddio ffotograffau a darluniau i wella'r testun a chyfleu ystyr. • gallu cylchdroi, gorgyffwrdd a grwpio delweddau, gan sicrhau bod y delweddau'n cael eu dangos yn y drefn gywir e.e. uwch/is/dod i'r blaen etc. • cloi gwrthrychau i'r dudalen.	• Gofynnwch i'r plant lunio posteri am eu hardal i ddenu twristiaid yno. Defnyddiwch rai posteri a thaflenni o'r Ganolfan Croeso lleol fel man cychwyn trafodaeth. Anogwch y plant, a fydd yn gweithio mewn grwpiau bach, i gynnig eu hawgrymiadau eu hunain ynghlych cynnwys eu poster. • Gellir creu banc lluniau gan ddefnyddio ffotograffau digidol o'r ardal, delweddau wedi'u tynnu o'r rhyngrwyd, darluniau wedi'u sganio o daflenni etc. Gallai'r plant ddefnyddio cyfuniadau o'r delweddau i gylchdroi a gorgyffwrdd er mwyn addurno eu posteri. Dylent ddefnyddio eu gwybodaeth o'r dasg flaenorol yn ogystal â'u sgiliau newydd o ran gorgyffwrdd/grwpio darluniau. Dylid eu hatgoffa i gadw eu gwaith yn rheolaidd.	• Ddefnyddio delweddau i ddarlunio eu gwaith. • Cylchdroi, grwpio a gorgyffwrdd delweddau yn y drefn gywir a chloi gwrthrychau i'r dudalen.. • Gwneud dewisiadau priodol o ran cynllun ac arddulliau gan ystyried y gynulleidfa, y defnydd a'r diben. • Cadw eu gwaith yn rheolaidd.	• Gallent gael eu rhannu yn grwpiau gwahanol gan gymryd nodweddion gwahanol o'r ardal *e.e. y traethau, canol y ddinas, y stadiwm newydd, llefydd o ddiddordeb, pethau i'w gwneud fel Plantasia, bowlio deg , etc.* • Gallent gasglu gwybodaeth am eu pwnc dewis fel gwaith cartref • Gellir arddangos a thrafod y posteri gorffenedig. A ydynt wedi cyflawni'r canlyniad dymunol? Ym mha ffordd y maen nhw'n effeithiol? Sut gellir eu gwella?

© Tîm Cwreicwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u Ffocysu (Parhad)			
• **pwynt allweddol:** bod gwybodaeth yn gallu cael ei chyflwyno mewn tabl. • **techneg:** mewnosod tabl i brosesydd geiriau, ychwanegu rhesi a cholofnau ychwanegol, os oes angen.	• Dangoswch i'r dosbarth sut i greu tabl, gan ddewis nifer y rhesi, colofnau etc. a sut i ychwanegu colofnau a rhesi ychwanegol os oes angen. Esboniwch wrth y plant y gall bwydo gwybodaeth i mewn i dabl fod yn fodd effeithiol o arddangos gwybodaeth. Mae'n galluogi'r darllenydd i dynnu gwybodaeth allan yn hawdd ac yn gyflym. • Gofynnwch i'r plant gynnal arbrawf Gwyddoniaeth sy'n digwydd dros gyfnod o amser, fel planhigyn sy'n tyfu, y tywydd bob dydd, neu ddarlleniadau sy'n cael eu cymryd bob 2 funud, i ddarganfod pa mor gyflym mae hylif yn oeri. Gofynnwch iddynt lunio tabl i gofnodi eu canlyniadau. Hefyd dylent osod arddulliau penawdau, lliw etc a dylent feddu ar y gallu i drefnu a chyflwyno eu casgliadau mewn dogfen a luniwyd ar brosesydd geiriau sy'n cynnwys delweddau, testun a fframiau testun i ragfynegi, cofnodi ac esbonio beth maen nhw wedi'i ddarganfod.	• Greu tabl a bwydo'r wybodaeth briodol. • Diwygio ac ychwanegu at y tabl yn ôl y gofyn. • Lle bynnag y bo'n briodol, dewis cynnwys tabl mewn darn o waith sydd wedi'i brosesu ar brosesydd geiriau.	• Os bydd un ar gael, mae BGRh yn offer heb ei ail ar gyfer arddangosiadau a thrafodaeth ddosbarth.
• **pwynt allweddol:** bod papurau newydd a chylchgronau'n defnyddio fframiau testun a llifoedd testun i ysgrifennu mewn colofnau • **techneg:** creu llifoedd testun i ail-greu cynllun papur newydd.	• Trafodwch y cynllun mewn papurau newydd a chylchgronau gan nodi'r defnydd o golofnau a'r bylchau testun a sut mae'r geiriau'n cael eu defnyddio i ffurfio'r colofnau. Atgoffwch y plant sut i wneud fframiau testun a dangoswch sut i greu llifoedd testun o'r naill ffrâm i'r llall i greu cynllun tebyg i hwnnw sydd ar gael mewn papur newyddion. Dangoswch iddynt sut i unioni'r testun er mwyn iddo fod yn union fel arddull papur newydd. • Gofynnwch i'r plant ysgrifennu erthygl fer ar gyfer papur newydd am rywbeth a ddigwyddodd yn yr ysgol, e.e. adroddiad am gêm bêl-droed neu stori sydd o ddiddordeb lleol, gan ddefnyddio llifoedd testun ac unioniad testun i ysgriffennu adroddiad llygad-dyst o'r stori.	• Mewnosod fframiau testun a llifoedd testun • Unioni testun. • Ychwanegu delweddaui ddarlunio erthygl.	

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu • Defnyddio TGCh i drefnu syniadau a gwybodaeth gan ddefnyddio cynllun a thechnegau cyflwyno priodol.	• Esboniwch wrth y dosbarth y byddant yn defnyddio'r technegau y maent wedi'u dysgu i gynhyrchu erthyglau papur newydd. Gofynnwch i'r dosbarth gofio beth maen nhw wedi'i ddysgu hyd yn hyn. • Gofynnwch i'r plant adolygu'r gwaith y maen nhw wedi bod yn ei wneud ar uned astudio hanes penodol. Esboniwch y bydd eu herthyglau papurau newydd yn dod â'r pwyntiau allweddol yn yr uned at ei gilydd. Maen rhaid i'r erthyglau fod yn gywir yn ffeithiol, yn fywiog ac yn ddiddorol. Hefyd mae'n rhaid iddynt ddefnyddio technegau cyflwyno priodol. • Rhowch y plant mewn parau i ysgrifennu eu herthyglau. Dylent ddiwygio eu herthyglau dros gyfnod o amser, gan gadw eu gwaith wrth iddynt fynd ymlaen. • Esboniwch wrth y dosbarth fod angen iddynt nodi'r pwyntiau allweddol, arbrofi gyda dilyniannu ac addasu'r testun i'w wneud yn fwy diddorol. Hefyd gofynnwch iddynt nodi unrhyw benawdau, is-benawdau a darnau allweddol o destun a defnyddio effeithiau priodol i'w hamlygu allan. • Atgoffwch y plant i ddefnyddio fframiau a llifoedd testun ac unioni testun yn ogystal â defnyddio delweddau i ddarlunio'r erthygl lle bynnag y bo'n briodol.	• Greu fformat papur newydd gyda fframiau, llifoedd ac unioni testun. • Trefnu ac ad-drefnu'r testun ar y sgrîn, gan gynnwys penawdau ac is-benawdau. • Mewnosod delweddau i ddarlunio eu herthygl. • Arbed y gwaith yn rheolaidd.	• Gellir ymestyn y gweithgaredd hwn drwy gynnwys hysbysebion, tudalennau llythyron, sylwadau a ysgrifau nodwedd, a gellir ei gyflwyno mewn 'amser real' gan nodwedd ddefnyddio meddalwedd dynwarediad, darllediadau radio neu lifoedd newyddion o'r Rhyngrwyd. • Annog y plant i feddwl am gynnwys eu herthyglau cyn ystyried cynllun a chyflwyniad, neu fel arall gallent ddrysu a threulio gormod o amser yn newid ffontiau a gwneud mân newidiadau i'r cyflwyniad. • Gellir gosod y gweithgaredd hwn yng nghyd-destun unrhyw waith perthnasol mewn pynciau eraill, *e.e. ysgrifennu erthygl ar ymchwiliad gwyddonol a'i chyflwyno fel darganfyddiad pwysig, erthygl ar effaith cynnyrch y maen nhw wedi bod yn ei ddadosod, ei ddylunio neu'n ei wneud mewn dylunio a thechnoleg yn ei gael ar fywydau pobl.*

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg